

## Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

### Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca nos Fawrth 6ed Mehefin 2023 am 7.30pm

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Anthony Jenner (Cadeirydd), Tudur Lewis (Is-Gadeirydd), Russell Davies, Anthony Eynon, Vivian Williams, Cyng Dorian Phillips, Rebecca Jaimangal-Jones, Ffion John, Michael Fussell, Julian Williams, Janice Morgan (Clerc/RFO)

*DS: Bu rhaid aildrefnu dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, o 30 Mai 2023 i 6 Mehefin 2023 oherwydd nad oedd y Clerc ar gael*

**1. Ymddiheuriadau:** Dennis Jones

**2. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf 31 Mai 2022**

- Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca, Efailwen ar Nos Fawrth 31 Mai 2022 fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau ar gynnig RD ac eiliwyd gan TL.

**3. Adroddiad Blynyddol 2022 – 23**

- Roedd adroddiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022-23 wedi'i ddrafftio fel gofyniad o Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru) 2021, ac wedi'i e-bostio i bawb cyn y cyfarfod hwn i dderbyn unrhyw sylwadau. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o fusnes a gweithgaredd y cyngor a chrynodeb o'i incwm a'i wariant.
- Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad a bydd nawr yn cael ei lanlwytho i'r wefan newydd sydd i'w lansio o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**4. Mabwysiadu Cyfrifon 2022-23**

- Dywedodd JM fod y Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 wedi'i gwblhau ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.
- Darparodd JM grynodeb o'r datganiad cyfrifyddu fel a ganlyn:
  - y balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022 oedd £9703
  - praesept o £7000 wedi'i dderbyn ar gyfer 22/23
  - 3 blynedd o TAW yn cael ei hawlio a hefyd TAW 22/23, cyfanswm o £987
  - cyfanswm gwariant y llynedd oedd £6,232.79. Roedd hyn yn cynnwys cyflog y clerc a rhywfaint o gyflog oedd yn weddill a dalwyd i'r clerc blaenorol, sef cyfanswm o £1450
  - roedd gwariant hefyd yn cynnwys £4783 ar oleuadau, costau etholiad gan gynnwys £1,910 (A137) fel cymorth ariannol i sefydliadau lleol

- balans a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth 2023 yw £11,459.71, gan arwain at amrywiad o 18% rhwng y balans a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth 2022 a'r balans a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth 2023. Roedd hyn oherwydd: cyfrifon 22/23 yn cynnwys 4 blynedd o TAW; mwy o daliadau wedi'u gwneud yn 21/22 a ddylai fod wedi'u gwneud yn 20/21; roedd mwy o daliadau i fod i gael eu gwneud cyn diwedd Mawrth 2023 h.y. costau arwyddion, gwefan a goleuadau troed gwerth £2641.94, fodd bynnag, cyflwynwyd yr anfonebau hyn ar ôl 31 Mawrth 2023
- mae ffurflenni cysoni banc ac esboniad o amrywiannau wedi'u cwblhau
- Cymeradwyodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol ac fe'i llofnodwyd gan AJ (Cadeirydd) a JM (Clerc). Bydd JM nawr yn anfon y Ffurflen hon ymlaen at yr Archwiliwr Mewnol, Rosemarie Davies, cyn cyflwyno i'r Swyddfa Archwilio.

#### 5. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2023/24

- Diolchodd AJ i bawb am eu cyfraniadau yn ystod 2022/23 a throsglwyddwyd rôl y Cadeirydd i TL ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Cadarnhawyd y byddai RD yn Is-Gadeirydd.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8pm.*

Arwyddwyd

Cadeirydd: TR Davies Dyddiad: 4.6.2024